# EDWARDS, EDWARD (1803 - 1879), awdurdod ar fywyd pysgod

**Enw:** Edward Edwards
**Dyddiad geni:** 1803
**Dyddiad marw:** 1879
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdurdod ar fywyd pysgod
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Natur ac Amaethyddiaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 23 Tachwedd 1803 yng Nghorwen. Bu am rai blynyddoedd yn ddilledydd ym Mangor, ond yn 1840 cychwynnodd ffowndri haearn lwyddiannus ym Mhorthaethwy. Yn 1864 dechreuodd astudio bywyd pysgod; yng nghwrs ei ymchwiliadau dyfeisiodd welliannau pwysig yng ngwneuthuriad tanciau i gadw pysgod byw ynddynt; a mabwysiadwyd ei ddyfeisiau gan brif amgueddfeydd Prydain a gwledydd eraill. Bu farw 13 Awst 1879.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3048504

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu